Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfosod tystiolaeth ynghylch profiad defnyddwyr technoleg ddwyieithog yn maes cyfathrebu atgyfnerthol ac amgen

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd yr interniaeth hon yn gweithio ar dystiolaeth i gyfrannu at ddatblygiad ymyriadau polisi ar gyfer darparu technoleg ddwyieithog ym maes cyfathrebu atgyfnerthol ac amgen. Nod y prosiect yw cyfosod y dystiolaeth sydd ar gael yn y maes er mwyn llunio trosolwg i lywio datblygiad polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio’n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i rychwant amrywiol o allbynnau ymchwil, ac i’w datblygu, a bydd yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i roi ei sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, yn ogystal â meithrin ei sgiliau cyffredinol ymhellach, a gwella ei wybodaeth am ymchwil y tu allan i'r byd academaidd.

## Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli yn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisi a’r cyhoedd yn gyffredinol, yn unol â safonau proffesiynol. Maen nhw'n cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau’r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr Interniaeth

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio gyda gwahanol dimau gan gynnwys y Tîm Polisi Niwroamrywiaeth, Tîm Cymraeg 2050, Tîm Polisi'r Gymraeg yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd gofyn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr cymdeithasol a bydd cyfle hefyd i roi sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, datblygu sgiliau cyffredinol ymhellach (e.e. llunio adroddiadau neu roi cyflwyniadau), a gwella gwybodaeth am bolisïau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a allai gynnwys mentora, cysgodi, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn:

- Meithrin dealltwriaeth well o’r byd y tu allan i’r byd academaidd a chynyddu eu cyfle o gael eu cyflogi, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a’u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD, a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil.
- Gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau llunio adroddiadau

## Y Prosiect

**Cyfosod tystiolaeth ynghylch profiad defnyddwyr technoleg ddwyieithog ym maes cyfathrebu atgyfnerthol ac amgen.**

*Cefndir*

Cyfathrebu atgyfnerthol ac amgen (AAC) yw unrhyw fath o gyfathrebu nad yw'n gyfathrebu llafar arferol[1]. Mae dyfeisiau AAC yn helpu pobl sy'n ddieiriau i gyfathrebu, er enghraifft rhai pobl awtistig, pobl sydd â chlefyd niwronau motor neu bobl sydd wedi cael strôc. Gall dyfeisiau AAC electronig gynnwys cymhorthion cyfathrebu allbwn llais (VOCA), lle mae defnyddiwr yn clicio ar lythrennau neu luniau, a'r ddyfais yn llefaru'r hyn y mae wedi clicio arno, gan ddefnyddio naill ai lais synthetig neu lais go iawn wedi'i recordio.

Mae'r Gangen Polisi Niwroamrywiaeth, Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Tîm Cymraeg 2050 a Thîm Polisi'r Gymraeg mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o gynnig dewis rhagweithiol o ran dyfeisiau AAC Cymraeg. Yn anecdotaidd, mae cydweithwyr polisi yn deall mai'r safon aur fyddai dyfeisiau AAC dwyieithog sy'n caniatáu i ddefnyddwyr dwyieithog gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn hawdd ac yn eu galluogi i newid cod rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mor hwylus â phosibl mewn sefyllfaoedd pob dydd (e.e. rhwng brawddegau neu o fewn brawddegau). Mae cydweithwyr polisi yn awyddus i ddeall beth fyddai'r profiad gorau i ddefnyddwyr o ran technoleg AAC ar gyfer siaradwyr dwyieithog. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'n uniongyrchol y nodau yn Mwy na geiriau – sef cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol – a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, sef darparu gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg heb i unigolion orfod gofyn amdanynt.

*Y nod*

Cyfosod y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch profiad defnyddwyr o dechnoleg AAC ddwyieithog.

[1] Communication aids and augmentative and alternative communication (AAC) - Sense

*Cwestiynau Ymchwil*

Gallai'r cwestiynau gynnwys:

- Beth yw nodweddion allweddol y dechnoleg AAC ddwyieithog sydd ar gael? Er enghraifft, pa ieithoedd sydd wedi'u cynnwys ac ym mha wledydd y maen nhw wedi'u defnyddio?
- A oes corff o dystiolaeth ymchwil sy'n ystyried beth fyddai'r profiad gorau posibl i ddefnyddwyr technoleg AAC ddwyieithog?
- Pa ofynion allweddol sydd wedi'u nodi gan ddefnyddwyr (a rhanddeiliaid allweddol eraill) ar gyfer y profiad gorau wrth ddefnyddio technoleg AAC ddwyieithog? Er enghraifft, pa nodweddion sy'n caniatáu i ddefnyddwyr newid cod yn llyfn rhwng ieithoedd (e.e. rhwng brawddegau neu o fewn brawddegau)?
- Beth yw ansawdd y dystiolaeth a nodwyd?

*Y dulliau y bwriedir eu defnyddio*

Mae'n bosibl y caiff hyn ei lywio gan adolygiad cwmpasu i archwilio i ddechrau beth yw hyd a lled y llenyddiaeth ymchwil ar brofiad defnyddwyr o dechnoleg AAC ddwyieithog. Gellid ehangu hyn wedyn i gynnal adolygiad llenyddiaeth mwy cynhwysfawr o unrhyw dystiolaeth a nodwyd.

*Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:*

- Adroddiad, a anfonir at y timau polisi perthnasol a chydweithwyr ymchwil gymdeithasol. Gallai'r adroddiad hwn gynnwys crynodeb o nodweddion allweddol y dechnoleg ddwyieithog sy'n bodoli'n barod ar gyfer dyfeisiau AAC, ac ymdriniaeth â'r dystiolaeth sydd ar gael am brofiad defnyddwyr o ran technoleg AAC ddwyieithog. Bydd yr adroddiad hefyd yn gwerthuso ansawdd y dystiolaeth a nodwyd ac yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru ar nodweddion allweddol i'w cynnwys ar gyfer dyfeisiau AAC dwyieithog sy'n cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r bwriad o sicrhau'r profiad gorau i'r defnyddiwr. Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi hefyd fel adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a mireinio adroddiadau.
- Cyflwyno'r canfyddiadau i'r timau polisi ac ymchwil gymdeithasol perthnasol, i lywio'r adroddiad terfynol.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27). Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod yr interniaeth. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod ag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn, neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny fel trefniant rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (o leiaf tri diwrnod yr wythnos waith), i'w drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb myfyriwr**

Rhaid i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- Y gallu i ddeall anghenion cydweithwyr polisi ac i lunio cwestiynau ymchwil yn yr adolygiad a all fynd i'r afael â'r rhain.
- Profiad o ddulliau cyfosod tystiolaeth, gan gynnwys, er enghraifft, adolygiadau llenyddiaeth a/neu adolygiadau systematig.
- Sgiliau trefnu cryf, manylder craff a'r gallu i gadw cofnodion clir drwy gydol y broses adolygu.
- Y gallu i werthuso astudiaethau ymchwil yn feirniadol ac i grynhoi eu cryfderau a'u gwendidau.
- Y gallu i lunio dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch.
- Y gallu i gyfleu canfyddiadau ymchwil yn effeithiol i gynulleidfaoedd arbenigol a chyffredinol.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr 2026 (yr union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@llyw.cymru a Jo Coates Joanne.Coates@llyw.cymru.

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys llenwi ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch at ddiben fetio diogelwch.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Gofynion cenedligrwydd

I fod yn gymwys ar gyfer interniaeth ar y cynllun hwn, rhaid bodloni rheolau cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar gyfle lleoliad.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y swydd neu'r broses ymgeisio at: semele.mylona@llyw.cymru

## Hysbysiad preifatrwydd

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru